# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR DATBLYGU A CHYFLWYNO POLISI DIOGELU

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MERCHER, 19 GORFFENNAF 2017 AM 2.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd C R Doyle (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M C Child | J P Curtice | S J Gallagher |
| P R Hood-Williams | L James | Y V Jardine |
| E J King | G J Tanner | |

**Hefyd yn bresennol: -**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd M C Child | Aelod y Cabinet dros Iechyd a Lles |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Liz Baglow | Swyddog Contractio, Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Fiona Broxton | Swyddog Contractio (Gofal Cartref) Gwasanaethau Cymdeithasol |
| David Howes | Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Simon Jones | Arweinydd Strategol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Chris Sivers | Cyfarwyddwr Pobl |
| Alex Williams | Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): H M Morris, K M Roberts a/ac L V Walton

### 5 DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

### 6 COFNODION.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Diogelu a gynhaliwyd ar 25 Mai fel cofnod cywir.

### 7 Y CYLCH GORCHWYL. (ER GWYBODAETH.)

Amlinellodd y Cadeirydd Gylch Gorchwyl ar gyfer y pwyllgor, er gwybodaeth.

Amlinellodd i'r aelodau'r cefndir a’r rhesymeg dros gyflwyno'r Pwyllgorau Datblygu a Chyflwyno Polisi (PDCP).

Nododd mai bwriad y pwyllgorau oedd eu bod yn canolbwyntio ar ddatblygu polisi a sicrhau cyflwyno, yn bennaf drwy ymrwymiadau polisi'r cyngor, i'w mabwysiadu gan y cyngor ar 27 Gorffennaf 2017. Y nod yw y bydd y pwyllgorau'n gweithredu er mwyn i aelodau a swyddogion gydweithio gydag ymagwedd glir gan aelodau tuag at gyflwyno Blaenoriaethau Corfforaethol.

Rhoddodd fanylion i dynnu sylw at y gwahaniaeth sylweddol rhwng y PCDP a Chraffu, gan amlinellu sut maent yn wahanol i'r PCC oherwydd fe'u harweinir gan Flaenoriaethau Corfforaethol drwy'r Cadeirydd ac nid drwy Aelod y Cabinet, er bydd y cysylltiadau agos â phroses y Cabinet ac Aelod y Cabinet yn parhau.

Dylai'r PDCP geisio darparu canlyniadau clir ar ôl cyflwyno ymchwil, tystiolaeth a gwybodaeth a dylai geisio osgoi unrhyw ddyblygiad o waith â'r 4 PDCP arall er gall cydweithio fod yn angenrheidiol mewn rhai pynciau.

## 8 <u>**CEFNDIR I'R SIARTER GOFAL MOESEGOL.**</u>

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion adroddiad drafft a nododd fanylion Siarter Gofal Moesegol Unsain. Esboniwyd bod Siarter Gofal Moesegol Unsain wedi'i chreu oherwydd arolwg gweithwyr gofal cartref o'r enw 'Amser i Ofalu' a gynhaliwyd rhwng mis Mehefin a mis Gorffennaf 2012 i gasglu eu barn ar pam y cafwyd cymaint o broblemau yn y sector. Darparwyd manylion yr arolwg yn Atodiad 1 yr adroddiad. Nododd fod Undebau Llafur ar waith yn Abertawe a bydd rhaid i unrhyw gytundebau'r dyfodol dderbyn cyd-gytundeb gan yr Undebau Llafur.

Datganodd Unsain mai 'prif fwriad y siarter oedd sefydlu gwaelodlin ar gyfer diogelwch, ansawdd ac urddas gofal trwy sicrhau amodau cyflogaeth sy'n sicrhau bod cleientiaid yn talu pris teg a bod gweithlu cadarn yn cael ei recriwtio a'i gadw trwy gyflog, amodau a lefelau hyfforddi cynaliadwy. Yn hytrach na chynghorau'n ceisio arbed arian trwy leihau cyflog ac amodau sydd wedi bod yn gyffredin i staff y cyngor, dylent ddefnyddio'r rhain fel meincnod.'

Nodwyd hefyd ar wefan ymgyrch Unsain, www.savecarenow.org.uk, fod 27 awdurdod lleol, 2 gwmni masnachu awdurdod lleol a 2 ddarparwr wedi cyhoeddi eu bod wedi mabwysiadu'r Siarter Gofal Moesegol. Darparwyd manylion yn Atodiad 2. Cyhoeddwyd adroddiad o'r enw 'Nodyn Briffio Drafft ar gyfer Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion ar Oblygiadau Mabwysiadu Siarter Gofal Moesegol Unsain i Gomisiynu Gwasanaethau Gofal Cartref yn Ninas a Sir Abertawe' dyddiedig Ionawr 2015 i'r Bwrdd Gweithredol ym mis Ebrill 2015. Roedd hyn yn crynhoi sefyllfa Dinas a Sir Abertawe o ran y siarter tri cham parthed ei weithlu gofal cartref mewnol ac allanol.

Ymhellach, yn ei arweiniad ar fabwysiadu siarter ar gyfer cynghorau a darparwyr eraill, datganodd Unsain ‘y ceir ymrwymiad i gam 1 ar unwaith, a bwriad i fabwysiadu camau 2 a 3’ wrth gofrestru ar gyfer y siarter. Nodwyd bod Dinas a Sir Abertawe eisoes wedi bodloni/bron wedi bodloni llawer o ofynion y Siarter Gofal Moesegol a darparwyd y manylion yn Atodiad 3.

Nodwyd bod Dinas a Sir Abertawe eisoes wedi bodloni 4 allan o 5 maen prawf yng **Ngham 1**. Yr unig faen prawf lle cafwyd ansicrwydd o ran cydymffurfio yn y sector gofal cartref allanol oedd 'Bydd gweithwyr gofal cartref yn cael eu talu am eu hamser teithio, costau teithio a threuliau angenrheidiol eraill megis ffonau symudol' gan nad oedd yr arolwg wedi gofyn am dalu 'treuliau angenrheidiol eraill'.

O'r 5 maen prawf yng **Ngham 2**, mae Dinas a Sir Abertawe eisoes wedi bodloni neu ragori ar 3 ohonynt: -

- Datganodd un o'n darparwyr gofal cartref allanol yr oeddent yn cynnig cytundebau heb oriau'n unig;
- Roedd un o'n darparwyr allanol yn disgwyl i'w staff dalu am gostau hyfforddi.

Nid oedd Dinas a Sir Abertawe yn bodloni'r ddau faen prawf yng **Ngham 3**, sef: -

- Bydd pob gweithiwr gofal cartref yn derbyn o leiaf y cyflog byw (£8.45 yr awr y tu allan i Lundain).
- Byddai pob gweithiwr gofal cartref yn cael ei gynnwys mewn cynllun tâl salwch galwedigaethol.

Amlinellodd yr adroddiad hefyd sut y gallai'r awdurdod fynd i'r afael â meysydd nad ydynt yn cydymffurfio â hwy, Siarter Gofal Abertawe, a goblygiadau mabwysiadu Siarter Gofal.

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- Trafodaethau gyda darparwyr allanol o ran datblygu siarter;
- Darpariaeth gymysg yn cael ei darparu'n fewnol ac yn allanol;
- Goblygiadau ariannol y siarter;
- Goblygiadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru);
- Diben cyffredinol darparu gofal cartref;
- Newid pwyslais o ddarpariaeth sy'n seiliedig ar amser, i ddarpariaeth sy'n seiliedig ar ganlyniadau;
- Yr angen am hyblygrwydd yn y system;
- Cydlynwyr PDG yn mynd i'r afael ag unigrwydd unigolion mewn cymunedau;
- Goblygiadau ariannol, cymhwysedd a chefnogaeth Llywodraeth Cymru;
- Canolbwyntio ar hanfodion y siarter yn yr hyn yr oedd yr awdurdod yn ceisio ei wneud;
- Cymharu sut yr oedd awdurdodau/sefydliadau lleol eraill wedi mabwysiadu'r siarter;
- Sut y byddai'r awdurdod yn ymdrin â chontractau presennol ac yn y dyfodol;
- Amserlenni fframwaith perthnasol ac osgoi oedi'r broses;
- Taliadau uniongyrchol, cymariaethau ag awdurdodau cyfagos a rheoli risg.

**PENDERFYNWYD** y cytunir ar y camau gweithredu canlynol yn seiliedig ar ganfyddiadau hyd yn hyn:-

1) Ymateb i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru ar broblemau’r gweithlu gofal cartref (Gorffennaf ac Awst 2017);
2) Parhau i wneud cynnydd ar Fenter Recriwtio a Chadw Gofal Canolraddol Bae'r Gorllewin, gan sicrhau ei bod yn adnabod cysylltiadau â'r Siarter Gofal.
3) Datblygu Siarter Gofal ar gyfer darparu gofal yn Abertawe gyda darparwyr, comisiynwyr ac Undebau Llafur a all gael ei chynnwys mewn ymarfer caffael yn y dyfodol;
4) Cyd-gynhyrchu manyleb gwasanaeth ar gyfer yr ymarfer caffael;
5) Cynnwys cwestiwn tendro 'Arferion Gwaith Teg' mewn ymarfer caffael yn y dyfodol i bennu ei werth yn ogystal â meini prawf eraill i sicrhau cydbwysedd priodol rhwng ansawdd a chost y contract;
6) Gwneud cymariaethau ag awdurdodau/sefydliadau eraill sydd wedi mabwysiadu'r siarter.

## 9 <u>CYNLLUN GWAITH 2017 - 2018. (TRAFODAETH)</u>

Pwysleisiodd y cadeirydd unwaith eto y gall y pwyllgor drafod ei Raglen Waith a'i wneud yn swyddogol ar ôl mabwysiadu'r Blaenoriaethau Corfforaethol ar 27 Gorffennaf 2017 yng nghyfarfod y cyngor.

Cynhaliwyd trafodaethau ynglŷn â phynciau'r dyfodol gan gynnwys deall model Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a gwasanaethau i blant, yn enwedig deall cyfrifoldeb a rennir gydag asiantaethau mewnol ac allanol i roi tawelwch meddwl bod yr un nodau'n cael eu ceisio.

Ychwanegwyd y dylid cymharu ag awdurdodau/sefydliadau eraill a oedd wedi mabwysiadu'r Siarter Gofal Moesegol a dylid trafod amserlenni fframwaith swyddogion yn y cyfarfod nesaf a drefnir.

**PENDERFYNWYD**: -

1) Nodi cynnwys y trafodaethau;
2) Bod y cynghorydd E J King yn gwneud cymariaethau ag awdurdodau/sefydliadau eraill a oedd wedi mabwysiadu'r Siarter Gofal Moesegol, ac yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf a drefnir;
3) Y dylid trafod amserlenni fframwaith swyddogion yn y cyfarfod nesaf a drefnir.

## 10 <u>AMSERAU CYFARFODYDD AR GYFER BLWYDDYN DDINESIG 2017-2018.</u>

**PENDERFYNWYD** y bydd cyfarfodydd y pwyllgor yn dechrau am 4pm yn y dyfodol ac yn parhau am oddeutu 2 awr.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.30 pm

**CADEIRYDD**